



Ymchwil Rhagarweiniol i Asesu Effeithiau Gwaharddiad neu Gyfyngiadau ar Werthu yng Nghymru Eitemau sydd yng Nghyfarwyddeb Plastigau Untro yr UE

Crynodeb

1. Amcanion a methodoleg yr ymchwil

- 1.1 Cafodd y Gyfarwyddeb Plastigau Untro (EU/2019/904) ei mabwysiadu gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) ym mis Mehefin 2019¹. Mae'r Gyfarwyddeb yn tynnu sylw at effeithiau amgylcheddol plastigau ac offer pysgota untro ac mae'n pennu mesurau i Aelod Wladwriaethau leihau eu heffaith. Un o'r mesurau yw cyfyngiad marchnad sy'n gwahardd gosod cynhyrchion plastig untro penodol ar y farchnad, sy'n ymarferol yn golygu gwaharddiad ar fewnforio a gwerthu'r cynhyrchion hyn. Mae'r Gyfarwyddeb yn rhestru naw categori o gynhyrchion plastig untro a glustnodir ar gyfer eu gwahardd o'r farchnad², a phob un o'r rhain yn gynhyrchion neu becynnau defnyddwyr ac iddynt ddewisiadau amgen di-blastig sydd ar gael yn rhwydd.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau ar effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol posibl gwaharddiad neu gyfyngiadau ar werthu eitemau yng Nghyfarwyddeb yr UE yng Nghymru. Nid yw'n asesiad llawn o effaith polisi. Bwriedir i'r ymchwil gael ei ddefnyddio fel sail o dystiolaeth i Lywodraeth Cymru ac i gefnogi unrhyw ymgynghori cyhoeddus yn y dyfodol.
- 1.3 Defnyddiwyd dulliau ymchwil desg i archwilio effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol posibl gwaharddiad neu gyfyngiadau ar werthu, a chanlyniadau anfwriadol y bydd angen eu

¹ [Directive \(EU\) 2019/904 of the European Parliament and of the Council](#)

² Ffyn cotwm; cyllyll, ffyrc, llwyau, gweill bwyta; platiau; gwellt; troyddion diodydd; ffyn i ddal balwnau; cynwysyddion bwyd wedi eu gwneud o bolystyren wedi'i ymestyn, cynwysyddion diodydd wedi eu gwneud o bolystyren wedi'i ymestyn, gan gynnwys eu capiau a'u caeadau; cwpanau ar gyfer diodydd wedi eu gwneud o bolystyren wedi'i ymestyn, gan gynnwys eu cloriau a'u caeadau

hystyried. Mae'n adeiladu ar waith blaenorol a gyflawnwyd gan yr ymchwilyr^{3,4,5}, gydag ymchwil ychwanegol a wnaed trwy adolygiad llenyddiaeth, ymgynghori gyda 29 o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol, a model meintiol i ddeall yr effeithiau posibl yng Nghymru.

2. Canfyddiadau allweddol

Effeithiau amgylcheddol

- 2.1 Dangosodd yr adolygiad llenyddol fod grŵp amrywiol o eitemau'n cael eu darganfod fel sbwriel môr, gan gynnwys cynhyrchion yn deillio o ddefnydd y cyhoedd, pysgota, dyframaethu, ffermio, cynhyrchu plastigau, a diwydiannau eraill. Caiff cynhyrchion penodol eu targedu yng Nghyfarwydddeb yr UE, yn seiliedig i raddau helaeth ar pa mor gyffredin ydynt mewn arolygon o sbwriel traethau. Mae'r cynhyrchion hyn ymysg y 10 cynnyrch plastig untro a ganfyddir amlaf ar draethau ac ym moroedd Ewrop.
- 2.2 Nid yw pob un o'r cynhyrchion sydd yng nghwmpas yr ymchwil wedi eu categorioeddio a'u cofnodi ar wahân mewn arolygon o sbwriel môr. O'r cynhyrchion a gofnodir, canfu arolwg diweddar gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol fod ffyn cotwm, a chyllyll a ffyrac plastig/polystyren, hambyrddau, gwellt, cynwysyddion bwyd a chwpanau yn cyfrif am 3.8% o sbwriel traeth yn ôl cyfrif eitemau. Y broblem sbwriel traeth fwyaf cyffredin o bellffordd yw darnau bach o blasting neu bolystyren (18%), sy'n aml yn ganlyniad cynhyrchion plastig yn diraddio ac yn ymrannu'n ddarnau bach. Mae'n neilltuoel o anodd adnabod y ffynhonnell a'r cynnyrch mae'r darnau bach o bolystyren yn deillio ohonynt, ond awgryma'r data fod tua 30% o'r holl sbwriel traeth yn dod o ymddygiad taflu sbwriel gan y cyhoedd.
- 2.3 Mae effaith sbwriel môr ar yr amgylchedd, yr ecosystemau mae'n eu cefnogi, ac iechyd dynol yn destun ymchwil gwyddonol sy'n parhau, ac mae'r bygythiad posibl o lygredd microblastig yn achos pryder penodol. Gan nad yw'r effaith a'r costau llawn yn hysbys, mae llawer o sefydliadau'n mabwysiadu'r egwyddor ragofalus yn eu hymdriniaeth o sbwriel môr.
- 2.4 Mae sbwriel yn ffurf o lygredd ac mae'n adlewyrchu methiannau i reoli adnoddau a gwastraff yn gyfrifol ac i gyfyngu ar effeithiau diwedd oes. Mewn termau economaidd, mae sbwriel yn creu cost allanol a elwir yn 'allanoldeb negyddol'. Mae allanoldeb negyddol yn bod pan fo gweithgaredd un asiant (megis y cynhyrchydd a/neu defnyddiwr terfynol y cynnyrch) yn achosi colli lles i asiant arall, nas digolledir. Yn yr amgylchiadau hyn, oherwydd yr allanoldebau negyddol sy'n gysylltiedig â'r cynnyrch, mae costau cymdeithasol ymylol cynhyrchu'r cynnyrch yn fwy na'r costau preifat a wynebwr gan gynhyrchydd/cyflenwr y cynnyrch yn unig, a dywedir bod 'diffyg yn y farchnad' wedi digwydd. Heb ymyrraeth llywodraeth bydd y nwydd neu'r gwasanaeth yn cael ei dan-brisio, neu ei or-gynhyrchu, neu'r ddau, ac ni fydd yr allanoldebau negyddol yn cael eu hystyried. Rhwng popeth, mae lles economaidd yn cael ei golli.
- 2.5 Caiff cynhyrchion untro eu gwerthu'n arferol i ddefnyddwyr ar bris isel neu eu darparu 'am ddim' fel rhan o'r cynnyrch neu'r gwasanaeth cyffredinol, megis gwellt yfed a ddarperir mewn bwytai bwyd cyflym a phlatiau untro mewn digwyddiadau awyr agored. Nid yw'r gost allanol a greir gan y sbwriel yn cael ei adlewyrchu ym mhpris marchnad y cynnyrch, ac nid yw derbynwyr a phobl y mae'r sbwriel yn effeithio arnynt (gan gynnwys y cyhoedd a'r amgylchedd ehangach) yn cael eu digolledu. Nid yw'r farchnad rydd yn arwain at ganlyniad effeithlon, felly mae sail resymegol economaidd am ryw

³ [A preliminary assessment of the economic, environmental and social impacts of a potential ban on plastic straws, plastic stem cotton buds and plastics drinks stirrers](#)

⁴ [A preliminary assessment of the economic impacts of a potential ban on plastic cutlery, plastic plates and plastic balloon sticks](#)

⁵ [A Preliminary Assessment of the Economic Impacts of a Potential Ban on Expanded Polystyrene Food and Beverage Containers](#)

ffurf o ymyrraeth llywodraeth i fynd i'r afael â'r diffyg hwn yn y farchnad. Mae gweithredu gwaharddiad neu gyfyngiad deddfwriaethol ar werthu yn un o'r opsiynau allweddol sydd ar gael.

- 2.6 Trwy'r ymchwil desg, canfuwyd dewisiadau amgen di-blastig ar gyfer yr holl gynhyrchion sydd ar gael i'r farchnad Gymreig, ac eithrio gwellt cartonau diod a ddefnyddir hefyd i dorri'r sêl ar y diod. Caiff y dewisiadau amgen mwyaf cyffredin ar gyfer y cynhyrchion eraill eu gweithgynhyrchu allan o bapur, pren a gweddillion cansenni siwgr (bagasse). Mae'r deunyddiau hyn yn pydru'n llawer cyflymach na phlastig yn yr amgylchedd morol⁶, ac felly bydd effeithiau sbwriel môr yn cael eu lleihau os yw'r farchnad yn troi o eitemau untro plastig i rai di-blastig o ganlyniad i waharddiad neu gyfyngiad ar werthu.
- 2.7 Gellir defnyddio dadansoddiad cylchred oes i ddeall effaith cynnyrch ar draws amrywiaeth helaeth o bryderon amgylcheddol ac ystyried cylchred oes llawn cynnyrch o'r cynhyrchu i ddiwedd oes. Er nad yw dadansoddiad cylchred oes yn mesur effeithiau ar sbwriel na graddau o ddefnyddio, mae'n tynnu sylw at risgiau amgylcheddol eraill allweddol. Mae'n gyffredin i ddadansoddiad cylchred oes ddatgelu cyfaddawd neu gyfnewidiad rhwng cynhyrchion, gydag un yn perfformio'n well yn erbyn un maes effaith ac yn waeth mewn eraill. Gall y canlyniadau helpu rhwystro 'trosglwyddo-baich' o un maes effaith i'r llall, ee lleihau sbwriel môr ond cynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr neu drosglwyddo effeithiau o ddiwedd oes i gamau cynhyrchu neu ddefnyddio.
- 2.8 Fe wnaeth dwy astudiaeth ddadansoddi ddiweddar o gylchred oes gymharu effeithiau amgylcheddol cynhyrchion untro plastig a di-blastig ar gyfer llawer o'r eitemau a ddaw o dan waharaddiad yng Nghyfarwyddeb yr UE, un astudiaeth a gomisiynwyd gan y Comisiwn Ewropeidd⁷ ac un arall gan Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd Denmarc⁸. Ar y cyfan, canfu'r astudiaethau fod y cynhyrchion untro di-blastig a ddadansoddwyd yn perfformio'n well neu'r un fath â chynhyrchion untro plastig. Roedd dadansoddiad sensitifrwydd yn tynnu sylw at yr angen i optimeiddio ac ysgafnhau cynhyrchion di-blastig lle bo'n bosibl, yn enwedig o safbwynt effeithiau ar newidiadau anuniongyrchol mewn defnydd tir o gynhyrchu biomas.

Effeithiau cymdeithasol

- 2.9 Mae Cyfarwyddeb yr UE yn cynnwys rhai eithriadau o'r gwaharddiad, ee lle byddai effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol, a chodwyd ceisiadau am eithriadau pellach yn ymgynghoriad Defra⁹. Mae'r rhain yn cynnwys gwellt galluogi meddygol a ddefnyddir i weini meddyginiaethau gronynnol wedi eu dosio ymlaen llaw mewn ysbytai a chartrefi a gwellt plastig hyblyg a ddefnyddir i gynorthwyo/galluogi yfed diodydd a bwyd hylifol mewn grwpiau o gleifion sydd ag anghenion penodol.
- 2.10 Roedd rhanddeiliaid y cysylltwyd â hwy ar gyfer yr ymchwil yn trafod effeithiau cymdeithasol posibl, yn enwedig o safbwynt grwpiau bregus megis pobl ag anableddau neu lai o symudedd. Roedd cefnogaeth lethol i eithriadau ar gyfer grwpiau o'r fath ac ar gyfer defnydd meddygol. Er bod rhai yn dadlau dros eithriad os gellir profi problemau o ran diogelwch bwyd, credai eraill na ddylid caniatáu unrhyw eithriadau er mwyn osgoi bylchau ac ystyrmio'r farchnad. Byddai ymgynghori â'r cyhoedd yn helpu adnabod pob achos o'r fath ar gyfer eithrio.

⁶ [Marine Debris Report](#)

⁷ [Life Cycle Inventories of Single Use Plastic Products and their Alternatives](#)

⁸ [Life Cycle Analysis of Single Use Plastic Products in Denmark](#)

⁹ [Consultation on proposals to ban the distribution and/or sale of plastic straws, plasticstemmed cotton buds and plastic drink stirrers in England](#)

- 2.11 Cafodd yr angen i gyfleu unrhyw reolau a rheoliadau mewn sawl iaith ei bwysleisio gan randdeiliaid o safbwynt y gwahanol ieithoedd a siaredir yng Nghymru. Cafodd dewisiadau cwsmeriaid mewn cynhyrchion a cholli defnyddioldeb posibl wrth newid i ddewisiadau amgen di-blastig hefyd eu codi fel ystyriaethau.

Ymchwil marchnad

- 2.12 Cyfyngedig oedd y data a ganfuwyd a oedd yn ymwneud â'r cyfansymiau o gynhyrchion a roddir ar y farchnad ar gyfer yr eitemau sydd o fewn cwmpas yr ymchwil hwn. Gwnaed amcangyfrifon ar gyfer Cymru trwy fesur amcangyfrifon blaenorol ar gyfer Lloegr ar sail pro-rata poblogaeth. O'r amcangyfrifon hyn, y cynhyrchion y gwerthir y cyfansymiau mwyaf ohonynt oedd 226 miliwn o unedau o gyllyll a ffyrac a werthir bob blwyddyn a 199 miliwn o wellt yfed, a'r marchnadoedd cynnyrch lleiaf oedd 11 miliwn o droyddion diodydd a 1 miliwn o ffyn balwnau yn ôl cyfanswm.
- 2.13 Cafodd amcangyfrifon o'r rhaniad presennol yn y farchnad rhwng cynhyrchion plastig a di-blastig eu triogli o ymchwil blaenorol a sylwadau rhanddeiliaid. Caiff nifer mawr o ffyn cotwm eu gwerthu bellach gyda choesau di-blastig ac mae gwellt yfed hefyd wedi profi symudiad cryf oddi wrth blastig yn sgil sylw diweddar gan y cyhoedd a'r cyfryngau. Mae gwellt cartonau diod ar y llaw arall yn dal ei gael eu gweithgynhyrchu bron yn gyfan gwbl wrth ddefnyddio plastig am y rhesymau a nodir uchod yn adran 2.6.
- 2.14 Roedd ymchwil marchnad rhagarweiniol wedi canfod gweithgynhyrchwyr eitemau plastig a di-blastig y cynhyrchion hyn yng Nghymru, gan ddangos y bydd gwaharddiad neu gyfyngiad ar werthu yn creu cyfleoedd a heriau i fusnesau yng Nghymru. Cafodd arweinwyr marchnad yn y sectorau gweithgynhyrchu sy'n ymwneud â'r cynhyrchion sydd o dan sylw hefyd eu hymchwilio a chanfuwyd un safle posibl yng Nghymru (gweithgynhyrchydd mawr o gynwysyddion bwyd EPS, ymysg pethau eraill, gyda safle yng Nghasnewydd). Bydd yn bwysig parhau i gyd-drafod â gweithgynhyrchwyr a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn deall mwy am effeithiau gwaharddiad neu gyfyngiad gwerthu ar economi Cymru.
- 2.15 Bydd gwaharddiad neu gyfyngu ar werthu yn effeithio hefyd ar fusnesau Cymreig lle maent yn defnyddio neu werthu'r cynhyrchion. Bydd costau pontio (chwilio am gynhyrchion newydd, addasu prosesau ac offer), ond wrth gyd-drafod â rhanddeiliaid dangoswyd bod yr effeithiau cyffredinol ar y busnesau hyn yn debygol o fod yn fach os yw cynhyrchion di-blastig ar gost cymharol a lle bo'r cynhyrchion hyn yn cynrychioli cyfran gymharol fach o gostau'r busnes fel cyfanrwydd.
- 2.16 O'r 21 o randdeiliaid a roddodd farn ynghylch a fyddai eu sefydliad yn debygol o gefnogi gwaharddiad ar y cynhyrchion a gynigir neu beidio, dangosodd 14 o randdeiliaid y byddent yn gyffredinol gefnogol o waharddiad. Roedd tri rhanddeiliad arall yn cefnogi'r gwaharddiad ond yn ymateb gyda rhai sylwadau amodol. Roedd y mwyafrif o'r rhain yn ymwneud ag amheuan a oedd yr holl amrywiol oblygiadau i fusnes (ac yn enwedig i weithgynhyrchwyr) wedi cael eu hystyried, a bod ar y busnesau hyn angen cefnogaeth arbenigol wrth fynd drwy'r broses o newid mathau o gynhyrchion. Dywedodd dau randdeiliad arall na fyddent yn cefnogi gwaharddiad pe bai'n cynnwys plastigau ocso-fiogdiraddadwy. Nododd dau randdeiliad na fyddent yn cefnogi gwaharddiad, ar y sail bod y cynhyrchion o dan sylw yn ffurfio cyfran fach o'r symiau o wastraff plastig yn amgylchedd y tir a'r môr. Roeddent yn teimlo y byddai'r gwaharddiad yn creu bwgan pellach o blastig, gan dynnu sylw oddi wrth y ffaith mai gwraidd y broblem yw taflu sbwriel a defnyddio eitemau untro yn gyffredinol. Cynhaliodd Defra ymgynghoriad cyhoeddus ar y gwaharddiad arfaethedig ar ddsbarthu a/neu werthu gwellt plastig, ffyn cotwm â choesau plastig a throyddion plastig diodydd yn Lloegr yn

2019. Roedd mwyafrif mawr o'r ymatebwyr yn cefnogi gwaharddiad (80-90% o blaid, yn dibynnu ar y cynnyrch)¹⁰.

Amcangyfrifon effeithiau economaidd

- 2.17 Gwnaed amcangyfrifon o effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gwaharddiad gan ddefnyddio model meintiol a'i gyflwyno mewn termau ariannol o werth presennol net dros gyfnod o 10 mlynedd i 2021 hyd 2030. Gwelwyd yr effeithiau economaidd mwyaf a amcangyfrifwyd yn y cynnydd mewn gwerth gwerthiannau, a oedd yn cynyddu 11% (£14 miliwn) ar draws y grŵp cynhyrchion fel cyfanrwydd, wedi ei yrru gan y gwahaniaeth pris rhwng cynhyrchion plastig a di-blastig. Nid yw'n eglur i ba raddau y byddai'r costau uwch hyn yn cael eu hamsugno gan fusnesau Cymru na'r graddau y byddent yn cael eu trosglwyddo ymlaen i'r defnyddiwr.
- 2.18 Y refeniw i weithgynhyrchwyr y Deyrnas Unedig yw'r effaith economaidd ail fwyaf sylweddol a amcangyfrifir yn y model, sy'n cynyddu 46% (£9 miliwn). Gellid cadw'r refeniw hwn yn economi Cymru os yw gweithgynhyrchwyr Cymru'n ymateb i'r galw am gynhyrchion di-blastig. Yn wir, gan fod y cynhyrchion hyn yn debygol o gael eu gwahardd ar draws yr UE hefyd, mae cyfleoedd sylweddol am farchnad allforio. Fodd bynnag, bydd gweithgynhyrchwyr cynhyrchion plastig yn colli refeniw, a chaiff y colledion hyn eu cyfrif yn y model.
- 2.19 Amcangyfrifwyd costau anfanteision gweledol yn y model ar gyfer sbwriel tir a thraethau. Costau anfanteision gweledol ar dir oedd uchaf (£24 miliwn) ond roedd effaith y gwaharddiad yn gymharol fach (lleihad o £0.4 miliwn mewn costau) oherwydd caiff y rhan fwyaf o sbwriel tir ei glirio'n gyflymach nag amser dadelfennu'r deunyddiau di-blastig. Mae costau anfanteision gweledol sbwriel traeth yn llai (£2.6 miliwn) ond gallai gwaharddiad leihau hyn 91% (£2.4 miliwn lleihad mewn costau). Bydd newid o blastig i ddeunyddiau sy'n pydru'n gyflymach yn yr amgylchedd morol yn lleihau'r swm o sbwriel sy'n cronni dros amser ac felly'n lleihau'r effeithiau hyn.
- 2.20 Bach iawn ar y cyfan oedd yr amcangyfrifon o effaith ar allyriadau carbon a fodelwyd, gyda gostyngiad bach mewn allyriadau CO₂e a fasnachir yn y Deyrnas Unedig o ganlyniad i'r gwaharddiad, a gostyngiad llai fyth mewn allyriadau byd-eang y tu allan i'r UE.
- 2.21 Sylwyd ar gyfyngiadau yn yr ymchwil marchnad, yn enwedig yn ymwneud â'r graddau'r oedd data cynhwysfawr a chywir ar gael ar gyfer Cymru. Gwnaed dadansoddiad sensitifrwydd felly yn y model i brofi effaith ansicrwydd mewn tybiaethau, ffynonellau data a dulliau o ddarogan ymateb y farchnad i waharddiad. Roedd dadandoddiad o sensitifrwydd twf yn y farchnad yn tynnu sylw at effaith dylanwad y gallai gwaharddiad ei gael, sef pe bai galw am y cynhyrchion untro hyn yn lleihau, waeth beth fo'r dewis o ddeunydd, yn sgil diddordeb o'r newydd gan y cyhoedd ac ymwybyddiaeth amgylcheddol. Wrth amcangyfrif effaith y gwaharddiad yn y model, mae effaith amlycaf lleihau defnydd, ar gyfer y gwerthoedd a brofwyd, ar effeithiau ar sbwriel tir (buddion a amcangyfrifir yn cynyddu 162%), gwerth gwerthiannau (lleihau £7.1 miliwn) a refeniw i weithgynhyrchu (wedi'i leihau £3.3 miliwn). Am gyfyngiadau pellach y data, gweler y prif adroddiad.
- 2.22 Roedd dadansoddiad sensitifrwydd enghreifftiol arall yn profi ansicrwydd yn y niferoedd o unedau gwerthiant a roddir ar y farchnad, pwysau a phrisiau unedau, y cyflymder y bydd y farchnad yn symud yn wirfoddol heb waharddiad, a'r effeithiau o ran sbwriel a gysylltir â'r cynhyrchion hyn. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu effaith cyfun gwerthoedd sensitifrwydd a brofwyd, nad ydynt yn gweithredu yn yr un cyfeiriad i bob maes effaith. Mae prif effaith y dadansoddiad sensitifrwydd hwn ar werth gwerthiannau a refeniw i weithgynhyrchu'r Deyrnas Unedig. O ran gwerth gwerthiannau, un o'r ysgogwyr allweddol yw prisiau'r unedau cynhyrchu. Roedd prisiau cynhyrchion di-blastig a fodelwyd yn cael eu haneru (ee trwy dwf yn y farchnad yn y dyfodol, arbedion maint a mwy o

¹⁰ [Consultation on proposals to ban the distribution and/or sale of plastic straws, plasticstemmed cotton buds and plastic drink stirrers in England](#)

gystadleuaeth), neu eu dyblu (ee os yw dewisiadau amgen di-blastig o leiaf ddwbl pris cynhyrchion untro plastig ac yn parhau i fod felly am y 10 mlynedd nesaf). Mae hyn yn cynrychioli amrediad eang iawn o bwyntiau pris posibl. Yn y sensitifrwydd isaf mae gweithredu gwaharddiad yn creu arbediad cost i ddefnyddwyr a busnesau sy'n prynu'r cynhyrchion hyn. Yn y sensitifrwydd uchaf, mae gwerth cyffredinol y farchnad yn cynyddu ond nid yw effaith y gwaharddiad yn newid yn sylweddol.

- 2.23 Roedd y dadansoddiad sensitifrwydd yn rhoi sylw hefyd i ansicrwydd mewn data sbwriel (haneru / dyblu'r gyfran o sbwriel a ffurfir o'r cynhyrchion hyn) ac amcangyfrifon o anfanteision gweledol (profi'r eithafion uchaf ac isaf sy'n deillio o astudiaethau parodwydd i dalu). Gwelir effaith dyfnaf hyn yn y canlyniadau sensitifrwydd uchaf lle mae costau anfanteision gweledol sbwriel tir yn cynyddu a'r gwaharddiad yn creu budd mwy (270% o gynnydd yn arwain at arbedion cost o £1.4).
- 2.24 Wrth ddehongli canlyniadau'r amcangyfrifon effaith enghreifftiol, mae'n bwysig ystyried nifer o gyfyngiadau methodolegol. Yr ystyriaeth allweddol yn yr effeithiau economaidd yw na ellid amcangyfrif y buddsoddiad a chostau pontio yn llawn ar gyfer gweithgynhyrchwyr yng Nghymru hyd nes y ceir manylion pellach. Gellir ymdrin â'r bwlch data hwn trwy ymarferiad ymgynghori cyhoeddus. Mae'n bwysig cofio hefyd fod anfantais weledol yn un agwedd o sbwriel môr y gellir ei mesur a rhoi gwerth ariannol iddi, ond nid yw'n cyfleu effaith llawn llygredd plastig ar amgylchedd, bywyd gwyllt ac ecosystemau'r môr, sy'n dal i gael ei ymchwilio gan y gymuned wyddonol.

3. Casgliadau

- 3.1 Mae'r ymchwil rhagarweiniol hwn yn archwilio effeithiau economaidd, cymdeithasol ac economaidd gwaharddiad neu gyfyngiad ar werthu yng Nghymru. Dylai darllenwyr gadw mewn cof gyfyngiadau'r data wrth ddehongli'r canlyniadau yn yr ymchwil hwn. Am fwy o wybodaeth ar y cyfyngiadau hyn, gweler yr adroddiad llawn. Caiff y buddion amgylcheddol eu cynrychioli'n rhannol yng nghost anfanteision gweledol y cynhyrchion hyn pan ganfyddir hwy fel sbwriel traeth, rhywbeth y mae'r model yn amcangyfrif y bydd yn disgyn tua 91% o dan waharddiad.
- 3.2 Y prif effaith economaidd yw cost uwch i'r rheini sy'n prynu'r cynhyrchion; er hynny, gan fod y gost hon wedi ei gwasgaru ar draws nifer mawr iawn o unigolion a busnesau, mae'r effaith ymylol ar bob un yn fach. Disgwylir i'r gwerth economaidd a gynhyrchir gan y cynhyrchion hyn symud o gadwyn gyflenwi'r cynhyrchion plastig i'r rheini sy'n cynhyrchu dewisiadau amgen di-blastig, gyda chynnydd net mewn referniw i weithgynhyrchu yn y Deyrnas Unedig. Mae'r gwerth hwn, a'r farchnad Ewropeaidd ehangach i gynhyrchion di-blastig, yn cynrychioli cyfle am dwf o fewn economi Cymru.
- 3.3 Ar gadwyn gyflenwi cynhyrchion plastig untro y bydd gwaharddiad yn effeithio lymaf. Ni chanfu'r ymchwil rhagarweiniol sail weithgynhyrchu sylweddol yng Nghymru ar gyfer y cynhyrchion hyn, a chredir bod y mwyafrif ohonynt yn cael eu mewnfario o dramor. Bydd y gweithgynhyrchwyr yng Nghymru yr effeithir arnynt yn wynebu costau buddsoddi i addasu cynhyrchu neu byddant yn dioddef colledion mewn referniw.
- 3.4 Argymhellir ymgynghori cyhoeddus i geisio gwybodaeth bellach gan randdeiliaid ar gefnogaeth i'r gwaharddiad, yr effaith tebygol ar fusnes, ac eithriadau pellach y dylid eu hystyried er mwyn diogelu grwpiau bregus ac osgoi canlyniadau anfwriadol.
- 3.5 Dylai unrhyw ddeddfwriaeth ynghylch gwaharddiad neu gyfyngiad ar werthu plastigau untro gael ei drafftio i osgoi dryswch ac amwysedd, a thynnwyd sylw yn yr adroddiad at faterion allweddol i'w hystyried. Bydd cyfathrebu a chyd-drafod ynglŷn â'r gwaharddiad a'i osod yng nghyd-destun ehangach gwaith ar faterion amgylcheddol yn annog cefnogaeth gan fusnesau a'r cyhoedd. Bydd gwaharddiad llwyddiannus yn cyfrannu at fynd i'r afael â sbwriel môr yng Nghymru, ac yn helpu i amddiffyn amgylcheddau naturiol y tir a'r môr.

Awduron yr Adroddiad: ...

George Cole, Resource Futures

Carla Worth, Resource Futures

Katie Powell, Resource Futures

Sam Reeve, Resource Futures

Susie Stevenson, Miller Research (UK)

Nick Morgan, Miller Research (UK)

Howard Walker, Bridge Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Cole, G; Worth, C; Powell, K; Reeve, S; Stevenson, S; Morgan, N; Walker, H (2019). *Ymchwil Rhagarweiniol i Asesu Effeithiau Gwaharddiad neu Gyfyngiadau ar Werthu yng Nghymru Eitemau sydd yng Nghyfarwyddeb Plastigau Untro yr Undeb Ewropeaidd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 32/2020.>

Ar gael ar: <https://gov.wales/impacts-ban-or-restrictions-sale-items-eus-single-use-plastics-directive>

Barnau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Isabella Malet-Lambert

Is-adradd

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Isabella.malet-lambert@gov.wales

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-422-4